




SENEDD!



# Syniadau

**Senedd**

**30/11/2020**



## Anfodlonrwydd ynghylch yr hawl i ail-sefyll

Yn ystod yr amhariad mae Covid-19 yn ei achosi, dylid caniatáu i fyfyrwyr ag amgylchiadau arbennig ail-sefyll modiwlau maen nhw wedi'u pasio!

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Materion Academaidd

**Cyflawnwyd Gan:** Chloe Wilkinson-Silk

---

### Manylion:

Roedd asesiadau yn cael eu newid y funud olaf, ac roedd y bylchau yn strwythurau cymorth y brifysgol yn dod yn amlwg.

O ganlyniad, cyflwynodd y brifysgol nifer o reoliadau brys ar gyfer dilyniant academaidd - gan gynnwys fersiwn ddiwygiedig o'r broses amgylchiadau arbennig gyfredol. O dan y rheolau dros dro hyn, roedd myfyrwyr yn gallu dewis ail-sefyll unrhyw asesiad yr oedd Covid-19 wedi effeithio arno, HEB GAP AR EU MARC, p'un a oeddent wedi PASIO neu FETHU yn wreiddiol. Nid oedd yn ofynnol chwaith i fyfyrwyr gyflwyno unrhyw ddogfennaeth ar gyfer amgylchiadau arbennig, gan fod y rheolau yn cael eu gweithredu'n awtomatig.

Y Broblem - Ddydd Mercher 18fed Rhagfyr, pasiodd Senedd y Brifysgol y penderfyniad i gael gwared ar y mesurau hyn ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol, gan eu disodli â mesurau lliniaru llawer llai effeithiol. O dan y newidiadau hyn, bydd yn rhaid i fyfyrwyr y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt bellach wneud cais am amgylchiadau arbennig, cyfiawnhau lefel eu heffaith, a gobeithio bod y cais hwn yn cael ei ganiatáu gan eu hadran. Gyda hyn, ni fydd ceisiadau am amgylchiadau arbennig a ganiateir yn dod i rym oni bai bod y modiwl / asesiad yr effeithiwyd arno wedi'i fethu neu heb ei gwblhau. Mae hyn yn golygu, pe bai myfyriwr yn wynebu effaith ddifrifol eleni oherwydd covid-19 ond yn dal i basio ei holl fodiwlau, ni fydd y mesurau lliniaru hyn yn dod i rym ac ni fydd ganddo'r hawl i gael ail-sefyll heb gap ar y marc.

Canlyniadau a Ddymunir - Bydd y Swyddog Materion Academaidd yn llobio'r brifysgol i ganiatáu i fyfyrwyr sydd â chais amgylchiadau arbennig wedi'i gadarnhau i ail-sefyll modiwlau / asesiadau maent wedi'u PASIO y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt.

Chloe Wilkinson-Silk



## Bydded yno Ddau

Dylid caniatáu i fyfyrwyr rannu rolau Swyddogion Gwirfoddol neu Swyddogion Llawn-amser.

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd

**Cyflawnwyd Gan:** Nate Pidcock

---

### Manylion:

Cynigir bod dau unigolyn yn gallu rhannu swyddi Gwirfoddol neu rolau Swyddog Llawn-amser o Etholiadau Swyddogion 2021 ymlaen. Yn y pen draw, byddai unrhyw bâr o swyddogion yn cael eu trin mewn egwyddor fel un rôl, gydag agweddau wedi'u rhannu yn unol â hynny trwy gytundeb lle bo hynny'n hollol angenrheidiol, e.e. Pleidleisio yn y Senedd a.y.b. Byddai'r Undeb yn rhoi mesurau a phrosesau priodol ar waith i gynnal yr egwyddor hon yn ôl yr angen.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i fyfyrwyr ymgymryd â rolau fel unigolion a rheoli eu hamser yn ofalus iawn, sy'n wych mewn mudiad sy'n caniatáu gweithio hyblyg o'r fath. Credwn y gallwn fynd ymhellach a byddai'n bosibl i ddau fyfyrwr allu cydbwysu gofynion y rôl ymysg ei gilydd, lle gallai fod ganddynt ymrwymadau eraill. Byddai hyn yn gwneud rolau'n fwy hygyrch i lu o fyfyrwyr, gan gynnwys pobl ag anableddau neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Byddai'n galluogi ffrindiau neu fyfyrwyr sy'n rhannu'r un safbwyntiau i sefyll, gan fynd i'r afael â rhwystrau sy'n ymwneud â hyder neu amheuan dwys ynghylch eu gallu.

Mae Undebau Myfyrwyr Warwick a Wolverhampton eisoes wedi gweithredu mesurau o'r fath naill ai'n rhannol neu'n llawn. Rwy'n credu y byddai'n bosibl iawn o fewn ein Hundeb Myfyrwyr gyda rolau'n cael yr un mynediad at adnoddau ag eraill.

Rwy'n credu y byddai'n gam gwych tuag at wneud Undeb y Myfyrwyr a'i rolau yn fwy hygyrch i bob myfyrwr.

Nate Pidock



## Gwnewch safiad cadarn mewn undod â gwrthdystiadau Gwlad Pwyl

Anogwch yr UM i sefyll ochr-yn-ochr â'r Gwrthdystiad yn erbyn gwahardd erthyliad yng Ngwlad Pwyl.

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Llesiant

**Cyflawnwyd Gan:** Marta Donato

---

### Manylion:

Ar 22 Hydref 2020, datganodd Tribiwnlys Cyfansoddiadol Gwlad Pwyl fod y gyfraith yn awdurdodi erthyliadau ar gyfer ffoetysau camffurfiedig yn anghyfansoddiadol. Ar hyn o bryd, dim ond 3 achos sydd dros gyflawni erthyliad yn gyfreithlon yng Ngwlad Pwyl:

1. Pan fydd bywyd neu iechyd y ddynes mewn perygl wrth barhau â'r beichiogrwydd.
  2. Pan fydd y beichiogrwydd yn ganlyniad i weithred droseddol.
  3. Pan fydd tebygolrwydd uchel y bydd nam difrifol na ellir ei adfer ar y ffoetws.
- Fodd bynnag, y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r driniaeth mor hygyrch ag y mae'n ymddangos ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae erthyliad yn dal i gael ei wrthod i fenywod sy'n gofyn amdano. Yng Ngwlad Pwyl, mae mwyafrif helaeth yr erthyliadau yn digwydd yn anghyfreithlon, gan ei bod yn anodd iawn cael erthyliad cyfreithlon, oherwydd y seiliau cyfreithiol cyfyngol ac oherwydd bod llawer o feddygon yn gwrthod cynnal erthyliadau cyfreithlon. Mae llawer o fenywod yn penderfynu teithio i wlad arall er mwyn ceisio cymorth meddygol. Mae erthyliad mewn gwledydd fel Gwlad Pwyl yn dal i gael ei ystyried yn bwnc dadleuol iawn, fel mae'r arolwg barn hwn o 2020 yn dangos: Mae 22% o'r rhai a ymatebodd o blaid erthyliad os gofynnir amdano hyd at 12fed wythnos beichiogrwydd, mae 62% yn gefnogol, ond mewn rhai amgylchiadau yn unig, mae 11% eisiau gwneud erthyliad yn gwbl anghyfreithlon, tra bod 5% heb benderfynu.

Mae'r penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Gwlad Pwyl fis Hydref y llynedd yn enghraifft arall o dramgwyddo hawliau dynol sylfaenol. Arweiniodd hyn at gyfres o wrthdystiadau, a gynhaliwyd nid yn unig gan bobl Gwlad Pwyl ond hefyd ar raddfa fyd-eang. Cerddodd miliynau o bobl strydoedd Gwlad Pwyl, a llawer o wledydd eraill, mewn protest yn erbyn awdurdodau Gwlad Pwyl.

Mae Aberystwyth yn gartref i nifer helaeth o fyfyrwyr Pwylaidd, y mwyafrif ohonynt yn fenywod. Mae menywod Pwylaidd, yn ogystal â menywod o unrhyw wlad, yn haeddu cael eu hawliau'n cael eu parhau; maent yn haeddu'r rhyddid i ddewis, rhyddid i fod yng ngofal eu dyfodol eu hunain ac i reoli eu cyrff eu hunain.

Fel Undeb Myfyrwyr, hoffwn i ni ddangos ein cefnogaeth i'r achos hwn, hyd yn oed os nad ydym yn gwneud mwy na phenderfynu sefyll ochr-yn-ochr â'r protestiadau a defnyddio ein proffiliau cyfryngau cymdeithasol i ledaenu ymwybyddiaeth. Yna



# SENEDD!

gallem feddwl am lansio ymgyrchoedd ar-lein eraill - creu cynnwys gwreiddiol fel negeseuon blog, cyfweiliadau fideo a.y.b. - gyda chymorth a chyfraniad myfyrwyr a staff Prifysgol Aberystwyth.

Marta Donato





## Cynghrair Llety Myfyrwyr Annibynnol Aber

Ei gwneud hi'n haws i fyfyrwyr Annibynnol gael gafael ar dai yn Aberystwyth, fel y gallant ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, eu haddysg a'u profiad prifysgol

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd

**Cyflawnwyd Gan:** Mark Marshall

---

### Manylion:

Mae gan y polisi hwn un nod, sef ei gwneud hi'n haws ac yn fwy hygyrch i fyfyrwyr Annibynnol gael llety tra byddant yn y Brifysgol.

Pan fydd myfyriwr yn ymddieithrio, dim ond un o'r problemau sy'n eu hwynebu wrth geisio ymuno â'r sector llety preifat yw cael gafael ar lety heb warantwr. Er bod y Brifysgol wedi addo cynnig llety i fyfyrwyr Annibynnol bob amser, nid yw hyn bob tro'n ddelfrydol o ran anghenion rhai unigolion. Nid yw byw mewn neuaddau prifysgol gyda'r straen cyson o fod angen symud llety rhwng yr haf a'r tymor yn ddelfrydol, heb sôn am y diffyg lle preifat; hefyd mae'n well gan fyfyrwyr Annibynnol fyw gyda ffrindiau yn y dref.

Byddai'r polisi hwn yn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu myfyrwyr Annibynnol sydd am fynd i mewn i'r Sector Llety Preifat, a bydd yn gweithio tuag at eu datrys dros gyfnod o 3 blynedd, gan wneud y broses yn brofiad esmwythach.

Byddai'r polisi'n gweithio tuag at greu cynghrair rhwng Prifysgol Aberystwyth, Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, darparwyr llety fel asiantaethau tai a landlordiaid, yn ogystal ag eraill sydd â buddiannau yn y broses. Y nod fyddai gwneud darparwyr llety preifat yn fwy cydnaws â myfyrwyr annibynnol ac yn fwy hygyrch iddynt.

Byddai'r gynghrair hon yn mynd i'r afael â thri mater. Yn gyntaf, byddai'n creu ymwybyddiaeth ynghylch pob math o fyfyrwr Annibynnol, ac yn hyrwyddo newidiadau wedi'u teilwra i'w hanghenion. Yn ail, byddai'n codi proffil myfyrwyr Annibynnol gan ei gwneud yn haws i ddarparwyr llety preifat yn Aberystwyth ddeall anghenion y math yma o denantiaid. Yn olaf, byddai'n hyrwyddo arfer gorau ac yn safoni dull o weithredu ar gyfer sut mae darparwyr llety yn gweithio gyda thenantiaid sy'n fyfyrwyr Annibynnol.

--- Byddai'n gwneud asiantaethau tai yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal a'r ffyrdd y mae Awdurdodau Lleol yn cynnig cymorth iddynt trwy egwyddorion 'rhieni corfforaethol'. Yn benodol, sut mae hyn yn effeithio arnyn nhw fel tenantiaid neu gynulleidfa.

--- Byddai'n mynd i'r afael â'r anawsterau mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio'n eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i rywle priodol i fyw. Byddai'n codi ymwybyddiaeth



# SENEDD!

ac yn creu dull y cytunwyd arno ar y cyd o gynnig cefnogaeth iddynt fel tenantiaid a darpar gleientiaid.

--- Byddai'n mynd i'r afael â'r broblem lle mae rhieni mewn addysg yn cael eu 'cloi allan' o Lety Myfyrwyr, oherwydd eu sefyllfa bersonol. Byddai'n ceisio sicrhau bod asiantaethau tai yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion y mathau hyn o denantiaid.

--- Byddai hefyd yn caniatáu datblygiadau pellach o ran llety a gynigir gan y brifysgol, yn ogystal ag ailgychwyn sgysiau ynghylch 'Cynllun Gwarantwr Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio'.

O ystyried bod y Brifysgol wedi ystyried cynllun gwarantwr i fyfyrwyr Annibynnol o'r blaen, nid yw hyn yn chwyldroadol, ond byddai'n annog y Brifysgol i gymryd y cam cyntaf. Byddai'n annog y Brifysgol i ailystyried y cynnig, ond hefyd ystyried gwahanol ddulliau o ddatrys y sefyllfa, ar wahân i ddod yn warantwr pe na ellid cytuno ar gytundeb o'r fath.

Byddai'r polisi hwn yn caniatáu i UMAber ysgogi newid wrth greu datrysiaid a dull o safoni arfer. Yn aml, mae'r broses yn arwain at fod angen iddynt gyfiawnhau eu sefyllfa ac yn gwneud y broses o sicrhau llety yn chwithig, ac yn fwy peryglus yn tynnu eu ffocws oddi ar eu hastudiaethau.

Er bod y cynllun hwn yn sicr yn uchelgeisiol ac y byddai angen cynllunio strategol ar ei gyfer, rwy'n hyderus fod iddo, gyda'r gefnogaeth gywir, y gallu i wneud newid cadarnhaol arloesol i Fyfyrwyr Annibynnol yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mark Marshall



# SENEDD!

## **Creu llwybr beicio o Benparcau i'r Brifysgol**

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd

**Cyflawnwyd Gan:** Alan Chamberlain

---

### **Manylion:**

Byddai'n wych pe bai Undeb y Myfyrwyr yn lobbïo'r Cyngor Sir i gael llwybr beicio o Benparcau trwy Drefechan, i'r dref ac i'r Brifysgol. Mae yna lawer o bobl yn yr ardal, ond nid oes unrhyw lwybrau beicio diogel o Benparcau. Byddai'n wych i lesiant pobl.

Alan Chamberlain





# SENEDD!

## **Ionawr-fegan**

Anogwch pobl nid yn unig i helpu'r amgylchedd rydyn ni'n byw ynddo, ond hefyd i fyw bywyd hirach, hapusach ac iachach!

**Swyddog Gyfrifol:** Swyddog Llesiant

**Cyflawnwyd Gan:** Angel Cooper

---

### **Manylion:**

Ffarwelwch â mis Ionawr, a dechreuwch y flwyddyn newydd gyda veganuary!

- postio taflenni allan i bob llety ar y campws.

- creu grŵp / cymdeithas i helpu pobl i ddod at ei gilydd a helpu ei gilydd.

Dangos bwydydd / prydau bwyd anhygoel sydd eisoes allan yn yr archfarchnadoedd, neu hyd yn oed pa brydau bwyd hawdd y gellir eu paratoi gan fyfyrwyr. Dangos bod mwy i fod yn fegan na dim ond bwyta llysiau!

Angel Cooper



# SENEDD!

## **Sicrhau bod RAG yn ariannu'r gronfa lesiant i gynorthwyo myfyrwyr Aber**

Defnyddiwch arian RAG i helpu myfyrwyr Aber

**Swyddog Gyfrifol:** Llywydd

**Cyflawnwyd Gan:** Nate Pidcock

---

### **Manylion:**

Mae RAG nawr wedi cael ei newid i ariannu'r gronfa lesiant ganolog, er mwyn cynnig cymorth llesiant i holl fyfyrwyr Aber. Credaf y dylai hyn gael ei sefydlu fel rhywbeth parhaol yn Aber, i gynrychioli'r gymuned yr ydym yn rhan ohoni ac i ddangos bod teulu Aber yn helpu ein gilydd. Yr agwedd allweddol yw sicrhau bod myfyrwyr Aber yn helpu myfyrwyr Aber. Gall swyddogion yr UM ddefnyddio'r gronfa lesiant hon i gynnal llawer o wahanol syniadau i gadw ein myfyrwyr yn iach ac yn hapus.

Nate Pidcock